Archwilio Cymru
Audit Wales

# Sicrhau Gwerth o Leoedd Addysg a Gomisiynir

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Ionawr 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

### © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

### Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| Cipolwg ar yr archwiliad | | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | | 6 |
| Ein canfyddiadau | | 7 |
| Argymhellion | | 19 |
| Atodiadau | | 21 |
| 1 | Ynglŷn â’n gwaith | 22 |
| 2 | Cynnydd gydag argymhellion blaenorol | 24 |
| 3 | Ffurflen Ymateb y Rheolwyr | 28 |

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried sut y mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn asesu ac yn sicrhau gwerth am arian pan fo'n buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant. Rydym wedi ystyried y trefniadau ar y cyfan, ond fe wnaethom hefyd fwrw golwg fanylach ar gomisiynu addysg nyrsio.

2 Gan bod yr adolygiad hwn yn cyd-fynd â themâu yn ein Hadolygiad yn 2022 o'r Trefniadau Comisiynu Blynyddol, rydym hefyd wedi gwneud gwaith dilynol ar yr argymhellion a wnaethom yn yr adolygiad hwnnw.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae AaGIC yn gyfrifol am gynllunio, comisiynu, darparu, a rheoli ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer amryw broffesiynau iechyd ledled Cymru. Mae'n bwysig bod trefniadau cadarn yn eu lle i sicrhau y ceir y gwerth angenrheidiol o'i fuddsoddiad sylweddol i ddiwallu anghenion gweithlu GIG Cymru.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

4 Mae gan ddull cynllunio a chontractio AaGIC ffocws da ar gamau gweithredu a fydd yn ychwanegu gwerth ar gyfer myfyrwyr ac, yn y pen draw, ar gyfer GIG Cymru. Fodd bynnag, mae angen i AaGIC wella sut y mae'n asesu ac yn cyfleu effaith a gwerth ei fuddsoddiadau mewn addysg i helpu i ddarparu arweiniad ar gyfer blaenoriaethau yn y dyfodol.

5 Adnabu ein gwaith dilynol mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Trefniadau Comisiynu Blynyddol yn 2022 fod AaGIC wedi gwneud cynnydd da, er ein bod wedi adnabod bod gofyn gwneud rhagor o waith ar yr argymhelliad sy'n ymwneud â chofnodion cyfarfodydd busnes contractau.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

6 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad sydd â ffocws ar alluogi AaGIC i ddeall a dangos gwerth ei weithgarwch comisiynu addysg:

- pennu mesurau a dadansoddi gwerth am arian addysg a gomisiynir; ac
- adrodd o leiaf yn flynyddol ar werth ac effaith comisiynu addysg wrth y Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Mae cyfanswm y gofyniad cyllido ar gyfer Comisiynu Addysg a Hyfforddiant yn 2025-26 yn £370 miliwn.[1]

O'r cyfanswm cyllid uchod, mae oddeutu 90% o gyllideb AaGIC yn cael ei wario ar gomisiynu addysg.

O ran y sefyllfa ym mis Awst 2025, roedd y gyfradd lenwi ar y cyfan ar gyfer cyrsiau addysg yn 84% ar draws 3,038 o leoedd cyn cofrestru. Mae cyrsiau Proffesiynau Perthynol i Iechyd wedi'u llenwi bron i gyd.

Ceir bron i 1,800 o leoedd hyfforddiant a gyllidir mewn nyrsio. Ar y cyfan, 76% yw cyfradd lenwi'r cyrsiau hyn. Er bod lleoedd hyfforddiant nyrsio plant wedi'u gorlenwi, dim ond 41% o leoedd anableddau dysgu oedd wedi'u llenwi.

Ym mlwyddyn academaidd 2023-24, fe wnaeth 113 o fyfyrwyr nyrsio naill ai tynnu'n ôl o'r cwrs neu beidio â'i gwblhau oherwydd methiant academaidd. Mae hyn yn 'gost a gollwyd' o oddeutu £1 miliwn.

Mae AaGIC wedi cwblhau pedwar allan o bump o'r argymhellion yn ein hadolygiad o Gomisiynu Addysg yn 2022, gydag un wedi'i nodi fel un sy'n dal i fynd rhagddo.

---

[1] Mae Cynllun Addysg a hyfforddiant AaGIC 2025-26 yn dynodi cyfanswm gofyniad cyllido o £369.946 miliwn ar gyfer addysg a hyfforddiant.

# Ein canfyddiadau

## Gwreiddio gwerth am arian mewn cynlluniau a chontractau

### Mae dulliau cynllunio a chontractio AaGIC yn canolbwyntio'n effeithiol ar gyflawni gwerth am arian

#### Datblygu cynlluniau addysg a hyfforddiant

7 Mae gwariant AaGIC ar yr holl addysg a hyfforddiant yn sylweddol. Mae ei adroddiadau blynyddol yn dynodi bod buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant wedi cynyddu'n gadarnhaol uwchlaw chwyddiant, gyda'r nod o greu gweithlu mwy cynaliadwy i Gymru. Gyda chyfanswm gwariant o £370 miliwn yn cael ei ragamcanu yn 2025-26, rhaid iddo greu a dangos gwerth da o'r cyllid hwn.

8 Mae dull cynllunio addysg a hyfforddiant AaGIC yn cynnwys ystyried pa gamau gweithredu fydd yn ychwanegu gwerth at GIG Cymru. Er nad yw'n wyddor fanwl gywir, rydym yn gweld ymdrechion amlwg gan AaGIC i gydweithio gyda byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i ddeall eu hanghenion o ran y gweithlu a hyfforddiant dros y tymor byr a chanolig. Byddai hyfforddi gormod o bobl yn ysgwyddo costau heb ddwyn budd i gyrff iechyd, ond gallai rhy ychydig arwain at brinder gweithlu ac arwain at gynnydd mewn defnyddio staff asiantaeth, sy'n arfer drud. Mae AaGIC yn defnyddio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, cynlluniau'r gweithlu ac ymgysylltu parhaus â chyrff iechyd i oleuo ei Gynllun Addysg a Hyfforddiant.

9 Mae AaGIC yn cymryd nifer o gamau ymarferol fel rhan o'i brosesau cynllunio i helpu i sicrhau y ceir gwerth o'r buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant:

- **Datblygu dangosfyrddau a gwneud defnydd da o ddata i oleuo cynlluniau addysg a hyfforddiant.** Mae hyn yn cynnwys:

  - Grŵp gorchwyl a gorffen i wella ansawdd data y mae'n ei gofnodi ac yn ei ddadansoddi.
  - Datblygu a gwella'r wybodaeth a geir o ddata i fodelu gwaith i gynllunio'r gweithlu'n strategol (un o'r 'canlyniadau' yn ei CTCI).
  - Defnyddio modelu rhagfynegol i gynllunio'r nifer cywir o ddysgwyr i ddiwallu'r anghenion o ran y gweithlu yn y dyfodol. Mae hyn hefyd yn ystyried ble y mae'n debygol y ceir cyfraddau llenwi is na'r disgwyl.
- **Cynnal trafodaethau parhaus gyda Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd i gynllunio llwybrau gyrfa cynaliadwy.** Er enghraifft, mae AaGIC yn annog sefydliadau i gefnogi datblygiad gyrfa ar gyfer nyrsys yn eu blwyddyn gyntaf. Mae hyn yn helpu i greu'r capasiti i gyflogi graddedigion newydd ac yn sicrhau llif cyson o weithwyr proffesiynol hyfforddedig. Mae hyn hefyd yn hybu datblygiad personol i helpu i greu gweithlu cynaliadwy a chydnerth mewn rolau ar rengoedd uwch sydd o gymorth gyda chynllunio a chynaliadwyedd y gweithlu.
- **Gweithredu i wella cyfraddau cadw.** Er nad oedd yn uniongyrchol o fewn cwmpas yr adolygiad hwn, mae'n gadarnhaol bod AaGIC yn ategu ei weithgarwch comisiynu addysg nyrsio â chynllun cadw nyrsys ac ymrwymiad o'r newydd i gryfhau ymdrechion cadw yng nghynllun gweithlu nyrsio strategol 2025, gan gydnabod bod angen gwneud mwy.

10 Mae AaGIC yn gweithio'n galed i daro cydbwysedd rhwng y galw am addysg a hyfforddiant ar y naill law a nifer y lleoliadau sydd ar gael gyda darparwyr addysg ar y llaw arall. Mae dull comisiynu strategol AaGIC hefyd yn darparu peth cydnerthedd gan ei fod yn gweithio gydag ystod eang o ddarparwyr addysg ac yn comisiynu ganddynt.

11 Gyda rhai cyrsiau'n rhedeg dros nifer o flynyddoedd erbyn bod myfyrwyr wedi cymhwyso, mae'r dirwedd yn newid o bryd i'w gilydd. Yn gyffredinol, mae'r galw ar gyfer rolau craidd yn barhaus ac rydym yn deall bod y rhan fwyaf sydd wedi hyfforddi'n llwyddiannus yng Nghymru'n gweithio yn GIG Cymru. Ond ceir achlysuron lle mae AaGIC wedi gorfod gweithio trwy heriau recriwtio ar ôl cymhwyso yn enwedig ar gyfer cymdeithion meddygon ac ymarferwyr parafeddygol.

## Cynnwys gwerth mewn contractau addysg

12 Er y gellir diffinio gwerth yn ariannol, ceir hefyd gamau gweithredu sy'n ychwanegu gwerth ariannol i ddwyn manteision i fyfyrwyr, cyflogwyr a'r boblogaeth ehangach. Mae AaGIC yn dangos yn briodol ei fod yn ceisio ychwanegu gwerth ehangach trwy ei ddulliau contractio addysg.

13 Mae contractau AaGIC yn darparu gwerth ychwanegol i brofiadau dysgu myfyrwyr. Er enghraifft, rhaid i 20% o'r dysgu fod yn ddysgu rhyngbroffesiynol. Mae AaGIC wedi bwrw golwg ar fodelau dysgu rhyngbroffesiynol eraill ac wedi datblygu dull pwrpasol ar gyfer Cymru. Mae'r dull addysgol hwn yn adlewyrchu'r ffordd amlddisgyblaethol o weithio a ddefnyddir yn llawer o leoliadau'r GIG ar hyn o bryd ac yn paratoi myfyrwyr yn well ar gyfer cyflogaeth.

14 Mae contractau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg sicrhau bod myfyrwyr yn cael dealltwriaeth am arweinyddiaeth dosturiol a gwella. Mae hyn wedi'i wreiddio yn yr holl hyfforddiant cyn cofrestru. Mae hyn yn hybu sgiliau cyfathrebu effeithiol, gwaith tîm a dealltwriaeth am y sector gofal iechyd. Mae'r gofynion ychwanegol hyn ar gyfer cyrsiau'n hybu dealltwriaeth am faterion ehangach o ran ansawdd gwasanaethau o fewn y gweithlu.

15 Yn awr mae AaGIC yn dylunio contractau i wella mynediad ar gyfer ystod ehangach o fyfyrwyr posibl. Mae hyn yn dwyn manteision ehangach sy'n ychwanegu gwerth. Mae'r rhain yn cynnwys creu gweithlu mwy amrywiol, ychwanegu gwerth economaidd, galluogi symudedd cymdeithasol a chynrychioli'r bobl y mae GIG Cymru yn eu gwasanaethu yn well. Mae'r contractau wedi'u diweddaru'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg addasu tariffau mynediad i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd heriol, ardaloedd difreintiedig yng Nghymru a chymunedau anodd i'w cyrraedd. Mae'r rhain yn cynnwys myfyrwyr sydd:

- wedi bod mewn gofal neu'n derbyn gofal am dri mis neu fwy;
- yn ofalwyr ifainc;[2]
- yn byw mewn ardal ag amddifadedd uchel;

---

[2] Ystyr oedolion ifainc sy'n ofalwyr yw pobl ifanc 16 i 25 oed sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am aelod o'r teulu neu gyfaill ag afiechyd neu anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu ddibyniaeth.

- â rhieni nad ydynt wedi'u haddysgu i lefel Addysg Uwch; ac
- â nodwedd warchodedig a heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

# Cyflawni gwerth am arian

## Mae AaGIC yn cyflawni mentrau sy'n dangos ei fwriad i wella gwerth a deilliannau

### Camau gweithredu sy'n ychwanegu gwerth i gefnogi myfyrwyr

16 Mae AaGIC yn gallu dangos yn glir bod camau gweithredu ymarferol yn cael eu cymryd trwy'r flwyddyn i lywio gwerth gwell yn ei ddull comisiynu addysg. Yn arbennig, mae AaGIC yn cydnabod mai'r prif reswm dros darfu ar astudiaethau yw absenoldeb mamolaeth. Mae AaGIC yn gweithio gyda darparwyr addysg i wneud newidiadau i gyrsiau i gefnogi'r rhai â chyfrifoldebau gofalu. Ceir enghreifftiau o fentrau sydd wedi gwneud amseroedd cyrsiau'n fwy hygyrch i fyfyrwyr â phlant. Ceir cymorth hefyd i fyfyrwyr ddychwelyd i ddysgu ar ôl absenoldeb mamolaeth, er enghraifft:

- Amseroedd Dosbarthiadau Hyblyg: Ym Mhrifysgol Wrecsam, mae'r cwrs parafeddygon bellach yn rhedeg o 9am tan 3pm. Mae hyn yn helpu myfyrwyr y mae arnynt angen gollwng a chasglu plant ar gyfer gofal plant.
- Cymorth Yn Ystod Absenoldeb Mamolaeth: Ym Mhrifysgol De Cymru, fe helpodd AaGIC i sefydlu diwrnodau 'cadw mewn cysylltiad' i fyfyrwyr ar absenoldeb mamolaeth. Mae'r diwrnodau hyn yn helpu myfyrwyr i gadw mewn cysylltiad a theimlo'u bod yn cael eu cefnogi pan ydynt yn dychwelyd at eu hastudiaethau.

17 Mae AaGIC hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ‘symleiddio’r’ broses i nyrsys cymwysedig symud yn syth i mewn i swyddi nyrsio perthnasol. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn rheoli’r broses hon i’w gwneud yn haws ac yn gyflymach i nyrsys sydd newydd gymhwyso ddechrau gwaith. Unwaith y mae nyrsys yn gorffen eu hyfforddiant ac yn cyrraedd y safonau gofynnol, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn eu lleoli’n uniongyrchol yn un o’u dewis rolau. O ganlyniad, nid oes angen i nyrsys fynd trwy gyfweliad.

18 Mae’r ‘symleiddio’ hwn yn lleihau costau recriwtio byrddau iechyd ac yn helpu i sicrhau bod y rhai sy’n hyfforddi yng Nghymru’n cael eu cyflogi yng Nghymru. Mae’r broses hon hefyd yn rhoi sicrwydd cynharach i fyrddau iechyd ynghylch nifer y nyrsys y byddant yn eu hennill. Ar gyfer 2025, fe wnaeth dyraniad y cynllun symleiddio ar gyfer Nyrsys ac Ymarferwyr Adrannau Llawdriniaeth baru 727 o fyfyrwyr ag un o’u pedwar dewis. Roedd 177 o fyfyrwyr heb eu dyrannu a hwythau’n cael eu rheoli wedyn trwy broses ar wahân sy’n paru graddedigion â swyddi gwag.

19 Mae AaGIC hefyd yn casglu adborth gan fyfyrwyr a darparwyr gofal iechyd am brofiad myfyrwyr. Gall myfyrwyr godi pryderon trwy becynnau cymorth ‘codi llais yn ddiogel’ ar-lein, fforymau myfyrwyr, ac arolygon. Mae AaGIC hefyd yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd gyda darparwyr addysg, aseswyr ymarfer, a hwyluswyr addysg i gael diweddariadau cyson am gynnydd cyffredinol.

20 Gall AaGIC ddangos bod prosesau uwchgyfeirio yn eu lle ar gyfer myfyrwyr sy’n codi pryderon. Mae ganddo hefyd ffocws cryf ar ansawdd addysg broffesiynol a safonau addysg. Yn ystod 2025-26, mae AaGIC wedi ymrwymo i wella ei ddull o ymgysylltu â myfyrwyr a hyfforddeion i helpu i wella ansawdd ac, yn y pen draw, gwerth addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys:

- cyflwyno storïau dysgwyr yn y Bwrdd;
- adfer y Fforwm Myfyrwyr Cenedlaethol;
- amlygrwydd y Tîm Gweithredol mewn timau ffocws myfyrwyr ac ymgysylltiad â hyfforddeion; ac
- adroddiadau mwy amlwg i’r Bwrdd ar y themâu o adborth gan fyfyrwyr a hyfforddeion.

## Adenillion ar fuddsoddiad mewn hyfforddiant

21 Mae AaGIC yn gweithio i wella sut y mae’n tracio nifer y myfyrwyr sydd, pan ydynt yn cwblhau eu cwrs, yn mynd ymlaen i weithio yn GIG Cymru. Er y byddai’n afrealistig disgwyl i’r holl fyfyrwyr sy’n hyfforddi yng Nghymru weithio yng Nghymru, mae colli graddedigion allan o Gymru ac i’r sector preifat yn adenillion gwael ar fuddsoddiad i GIG Cymru. Fe wnaeth ein adroddiad briffio ar ddata ynghylch gweithlu’r GIG yn 2023 amlygu, ar y pryd, bod 86% o’r nyrsys a gwblhaodd hyfforddiant yng Nghymru wedi diweddu mewn swydd yng Nghymru. Mae AaGIC yn dechrau tracio cyflogaeth ar ôl graddio yn well, ond mae’n cydnabod bod angen gwella hyn. Mae’n gweithio ar gynllun gweithredu i ymdrin â hyn.

22 I roi mwy o gyd-destun, er nad cyfrifoldeb AaGIC yw comisiynu addysg ar gyfer israddedigion meddygaeth, mae hefyd yn werth nodi mai dim ond 29% o’r myfyrwyr israddedig a gwblhaodd eu prif hyfforddiant meddygol mewn prifysgolion yng Nghymru wnaeth ddiweddu mewn swydd yng Nghymru. Er nad yw o fewn cylch gwaith AaGIC, mae hwn yn adlewyrchiad ehangach o’r her o ran gwerth am arian i GIG Cymru, oherwydd er bod niferoedd sylweddol o feddygon yn hyfforddi yma, nid yw gweithlu Cymru wastad yn cael budd o’u cyflogaeth.

23 Rhaid i fyfyrwyr sy’n cael bwrsariaeth (arian i helpu i dalu am eu hyfforddiant) weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl iddynt orffen eu cwrs. Os nad ydynt yn gwneud, efallai y bydd rhaid iddynt dalu’r arian yn ôl. Fe wnaeth adroddiad archwilio mewnol diweddar a roddodd sicrwydd cyfyngedig adnabod meysydd i’w gwella er mwyn AaGIC reoli’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r cynllun bwrsariaeth. Dywedodd y gallai AaGIC wneud mwy i dracio a chasglu tystiolaeth o fyfyrwyr a oedd wedi mynd i weithio yn y GIG yng Nghymru. Pe bai AaGIC yn tracio’r rhai sy’n gweithio yn GIG Cymru am y ddwy flynedd gyntaf (ac yn hwy) yn effeithiol fe allai ddangos gwerth am arian ei fuddsoddiad dros y tymor hwy. Mae AaGIC yn derbyn canfyddiadau’r adroddiad archwilio mewnol yn llawn ac mae ganddo gynllun gweithredu ar gyfer gwella. [3] Mae’r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill:

- datblygu gweithdrefn weithredu safonol gynhwysfawr;
- amserlen ar gyfer cynnal hapwiriadau cyfnodol o fwrsariaethau; a

[3] Ymateb AaGIC i argymhellion yr adroddiad Archwilio Mewnol (tudalen 53 ymlaen)

- datblygu proses ffurfiol i adennill arian.

## Rheoli cyfraddau gadael cyrsiau

24 Ceir heriau o ran gwerth am arian sy'n gysylltiedig â chyfraddau gadael cyrsiau hefyd, er enghraifft, lle mae myfyrwyr yn gadael cyrsiau cyn eu cwblhau. Gall gadael cyrsiau fod yn gostus; yn fwy felly pan fo myfyrwyr eisoes wedi cwblhau blwyddyn neu ddwy a gyllidwyd.

25 Fe ofynnom ni i AaGIC gyfrifo cost gadael gan fyfyrwyr nyrsio (**Arddangosyn 1**). Ar yr adeg honno, roedd data 2023-24 ar gael, ond nid oedd dadansoddiad 2024-25 ar gael eto.

**Arddangosyn 1: costau hyfforddi myfyrwyr nyrsio sydd wedi tynnu'n ôl ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24**

| Rheswm | Cyfrif pennau | Cost a gollwyd (£m) |
|---|---|---|
| Myfyrwyr sydd wedi tynnu'n ôl (Heb i hynny fod yn gysylltiedig â methiant academaidd) | 89 | 0.793 |
| Myfyrwyr sydd wedi tynnu'n ôl (methiant academaidd) | 24 | 0.211 |
| **Cyfanswm** | **113** | **1.004** |

Ffynhonnell: AaGIC

26 Mae AaGIC yn deall lefelau gadael cyrsiau ac yn eu monitro'n fanwl. Mae'n cynnwys trothwyon perfformiad sy'n ymwneud â gadael fel rhan o gontractau gyda darparwyr addysg, y maent hwy'n eu monitro ar y cyd. Mae AaGIC yn defnyddio'r trothwyon hyn i oleuo camau gweithredu i leihau cyfraddau gadael ac i uwchgyfeirio pryderon lle mae mwy o fyfyrwyr na'r disgwyl yn gadael cyn pryd. Mae AaGIC hefyd yn cadw cofnod o gyfraddau gadael trwy gydol pob rhaglen i ragweld niferoedd y myfyrwyr sy'n cwblhau eu hyfforddiant.

27 Tanamcangyfrif yw'r ffigyrau yn **Arddangosyn 1** yn yr ystyr mai dim ond y costau ar gyfer blwyddyn hyfforddi derfynol y myfyriwr y maent yn eu dangos (nid ydynt yn cynnwys costau hyfforddi mewn blynyddoedd blaenorol os gadawsant ym mlynyddoedd dau neu dri). Hefyd, dim ond ar gyfer myfyrwyr nyrsio y mae'r dadansoddiad hwn, felly bydd y cyfanswm ar gyfer yr holl broffesiynau'n uwch. Er bod y 'costau a gollwyd' sy'n gysylltiedig â gadael yn gymesur isel, ac y byddant wastad yn bodoli, maent yn cynrychioli rhan bwysig o'r asesiad ariannol o werth am arian ac yn goleuo goruchwyliaeth a chraffu.

# Adolygu gwerth am arian

## Er bod monitro ansawdd a pherfformiad addysg a hyfforddiant yn dal i fod yn gryf, nid yw AaGIC yn mynd ati'n ddigonol i asesu gwerth am arian comisiynu addysg nac adrodd arno

### Gwella ansawdd addysg a hyfforddiant

28 Mae gan AaGIC drefniadau cadarn i gasglu data ar berfformiad gan ddarparwyr addysg, sy'n goleuo adroddiadau ar berfformiad. Mae darparwyr addysg yn cyflwyno ffurflen ddata fisol i AaGIC. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth am recriwtio myfyrwyr, ymadawyr, trosglwyddiadau, y niferoedd sydd wedi graddio ac achosion o darfu ar astudio. Mae AaGIC yn cynnwys yr wybodaeth hon mewn dangosfyrddau Power BI.

29 Fe wnaeth AaGIC sefydlu'r Grŵp Goruchwylio Addysg a Hyfforddiant, sy'n edrych ar ddata i sylwi ar batrymau neu newidiadau anarferol. Mae data o'r dangosfyrddau Power BI yn goleuo adroddiadau ar berfformiad a gyflwynir i'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg. Mae'r data hwn yn tanategu tri chyfarfod contract ffurfiol y mae AaGIC yn eu cael gyda phob darparwr addysg bob blwyddyn a'r Cyngor Deoniaid.

30 Mae gan AaGIC hefyd drefniadau cadarn i adolygu a rheoli ansawdd y lleoliadau addysg y mae'n eu comisiynu. Mae AaGIC yn defnyddio data ac adborth darparwyr gan gynnwys sgyrsiau parhaus gyda darparwyr addysg ac adborth hyfforddeion i adnabod unrhyw faterion ansawdd. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn helpu i siapio Adroddiadau Sicrwydd Ansawdd rheolaidd ar gyfer pob disgyblaeth y mae swyddogion perthnasol yn eu cyflwyno yn y Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg. Mae adroddiadau'n cynnwys ffigyrau recriwtio a chadw ac adborth o arolygon hyfforddeion gyda phwyntiau dysgu a chamau gweithredu cysylltiedig. Fel yr ydym wedi'i adnabod yn ein gwaith archwilio yn y gorffennol, ceir prosesau sicrhau ansawdd addysg ac uwchgyfeirio cyffredinol da ochr yn ochr â fframweithiau uwchgyfeirio ffurfiol.

31 Fodd bynnag, mae AaGIC yn colli cyfleoedd i adrodd ar effaith cyflawni ei Gynllun Addysg a Hyfforddiant. Bob mis Medi, mae darparwyr addysg yn cyflwyno hunanasesiad sy'n cynnwys gwybodaeth am sut y maent yn perfformio yn erbyn contractau a dangosyddion perfformiad allweddol. Ceir cyfleoedd i gynnwys gwybodaeth o'r hunanasesiadau hyn mewn adroddiadau y mae AaGIC yn eu cynhyrchu.

32 Mae'r Adroddiad Sicrhau Ansawdd ar gyfer Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol a gyflwynwyd yn y Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg ym mis Gorffennaf 2025 yn cynnwys y canlynol, sydd o gymorth:

- rhagolygon ar gyfer niferoedd myfyrwyr;
- cerrig milltir cynnydd;
- materion y mae angen eu rheoli;
- faint o bobl sy'n barod i gael eu recriwtio i mewn i'r GIG; a
- faint o fyfyrwyr sydd wedi bod yn rhan o symleiddio.

33 Fodd bynnag, yn y dyfodol, ceir cyfle i ddatblygu adroddiadau fel eu bod yn cynnwys sut y mae darparwyr addysg yn cydymffurfio â Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewn contractau a pha wahaniaeth y mae hyn yn ei wneud i brofiad myfyrwyr. Er enghraifft, gallai adroddiadau gynnwys effaith mentrau megis:

- dysgu rhyngbroffesiynol a hyfforddiant arweinyddiaeth dosturiol a gwella – pa un a yw myfyrwyr yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer y

gweithlu oherwydd y mentrau hyn neu a yw Byrddau Iechyd yn cydnabod y sgil yma;

- mentrau ar gyfer myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu – pa un a yw'r mentrau sy'n gysylltiedig â gofal yn cael effaith ar gyfraddau gadael neu'n galluogi mwy o geisiadau gan y rhai â chyfrifoldebau gofalu;
- symleiddio – pa arbedion effeithlonrwydd a gyflawnir gan yr arfer hwn ac a yw'n cael effeithiau cadarnhaol ar y cyflogai a'r cyflogwr gan ddangos gwerth ariannol ehangach y fenter.

## Agweddau ariannol ar werth am arian

34 Mae AaGIC yn ychwanegu gwerth at y lleoliadau addysg y mae'n eu comisiynu. Fodd bynnag, mewn amgylchedd ariannol sydd dan straen fe allai wneud mwy i ddangos a rhoi cyhoeddusrwydd i faint y gwerth y mae'n ei ychwanegu.

35 Mae AaGIC wedi cwblhau cyfrifiad sylfaenol mewnol o'r adenillion ar fuddsoddiad a geir o ganlyniad i hyfforddi gweithwyr iechyd proffesiynol trwy ddadansoddiad tymor canolig o osgoi costau staff asiantaeth mewn cyrff iechyd. Mae'r dadansoddiad cyfyngedig hwn yn dangos, pe bai AaGIC yn hyfforddi un nyrs ychwanegol sy'n mynd ymlaen i weithio yn y GIG, y gallai hynny arbed rhwng £202,000 a £439,000 i Fwrdd Iechyd dros 10 mlynedd o'i gymharu â defnyddio staff asiantaeth. Mae AaGIC yn colli cyfle i gyflwyno rhagolygon gwerth tymor hwy mwy manwl.

36 Un o flaenoriaethau CTCI AaGIC eleni yw cefnogi Byrddau Iechyd gyda'u hymdrechion i adfer rhestrau aros gofal a gynlluniwyd oherwydd bod cyrff y GIG, ar hyn o bryd, yn allanoli ac yn mewnoli am gost 'premiwm' sylweddol i leihau rhestrau aros. Mae hyn yn dangos bod AaGIC yn ymateb ac yn cysoni ei flaenoriaethau â'r heriau ehangach o ran y gweithlu yn y GIG i ychwanegu mwy o werth byth.

37 Ceir cyfle amlwg hefyd i adolygu gwerth am arian (costau ac effaith) y Cynllun Myfyrwyr Nyrsio Rhyngwladol. Ar ôl pandemig COVID-19, roedd llai o bobl yn ymgeisio i hyfforddi fel nyrsys. I ymdrin â hyn, fe ddatblygodd AaGIC brosiect i ddod â myfyrwyr rhyngwladol i Gymru i hyfforddi fel nyrsys yn y GIG. Un o nodau'r prosiect oedd gwella integreiddio ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol. Trwy wneud hyfforddiant yng Nghymru, mae'n fwy tebygol y bydd myfyrwyr yn meithrin cyfeillgarwch ag eraill a rhwydweithiau cymdeithasol ac yn teimlo mwy o gysylltiad â'u gweithleoedd. O ganlyniad, efallai y bydd mwy o fyfyrwyr yn aros yn y GIG yng Nghymru yn y tymor hir. Bydd y grŵp cyntaf o fyfyrwyr yn graddio yn 2025. Mae gan AaGIC gyfle i fonitro ac adrodd ar agweddau megis:

- faint gostiodd y prosiect;
- faint o fyfyrwyr sy'n aros/a arhosodd i weithio yn GIG Cymru; a
- phrofiad ac adborth myfyrwyr.

38 Gallai adroddiadau AaGIC i'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg a'r Bwrdd ar werth am arian gael eu gwella. Rydym wedi adnabod enghreifftiau da yn ystod ein gwaith lle mae AaGIC yn gweithredu i ychwanegu gwerth. Ond ceir cyfle ac angen i ddeall yn well pa werth ariannol a gyflawnir ochr yn ochr â meysydd lle nad yw buddsoddiad wedi ychwanegu gwerth yn uniongyrchol at GIG Cymru. Gallai'r meysydd hyn gynnwys, ymhlith eraill:

- dadansoddiad gwell o osgoi costau – er enghraifft, lle mae cyflenwi staff newydd yn amlwg wedi osgoi costau staff asiantaeth ychwanegol neu ddibyniaeth ar drefniadau allanoli neu fewnoli am bremiwm;
- dadansoddiad cadarn o gostau gadael ar draws grwpiau proffesiynol a chan gynnwys costau addysg blynyddoedd blaenorol lle mae myfyrwyr yn gadael ym mlynyddoedd 2, 3 neu 4;
- cost hyfforddiant myfyrwyr lle maent yn gorffen hyfforddiant ond yn peidio â chymhwyso'n llwyddiannus; a
- chost hyfforddiant myfyrwyr i fyfyrwyr a gaiff eu hyfforddi yng Nghymru, a gefnogir gan AaGIC, ond nad ydynt ym mynd ymlaen wedyn i weithio yn GIG Cymru.

39 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg yn ei gwneud yn ofynnol iddo:

- geisio sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd perfformiad, monitro, rheoli a **gwerth rhaglenni a chontractau addysg a hyfforddiant**, gan gynnwys adnabod a rheoli risg gysylltiedig; ac
- argymell wrth y Bwrdd pa feysydd y gellid buddsoddi/ddadfuddsoddi ynddynt mewn Cynlluniau Addysg a Hyfforddiant **gan ystyried comisiynu sy'n seiliedig ar werth**.

40 Er ein bod yn gweld bod y Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg yn dangos goruchwyliaeth gref ar baratoi cynlluniau addysg a hyfforddiant ac ansawdd addysg, mae angen i'w ffocws ar werth am arian comisiynu gael ei ddatblygu ymhellach.

41 Ceir ffocws cryf ar baratoi'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant a buddsoddir amser sylweddol i'w baratoi. Byddai dadansoddiad pellach o'r effaith a'r gwerth y mae wedi'u cyflawni ar ôl diwedd pob blwyddyn academaidd:

- yn darparu sicrwydd ynghylch gwerth; ac
- yn goleuo prosesau penderfynu a'r drefn flaenoriaethu mewn Cynlluniau Addysg a Hyfforddiant diweddarach a ddatblygir yn yr hydref.

# Argymhellion

**A1** Datblygu a chymhwyso fframwaith cymesur a seiliedig-ar-dystiolaeth o fesurau i asesu gwerth am arian addysg a hyfforddiant a gomisiynir, gan ddefnyddio dangosyddion ariannol ac anariannol a pherfformiad cymharol. Dylai hwn ganolbwyntio ar ddeilliannau sy'n berthnasol, yn fesuradwy ac o fewn dylanwad y sefydliad, gan gynnwys meincnodi yn erbyn gwledydd eraill y DU **(paragraffau 28 i 34)**. Gallai'r rhain gynnwys, ymhlith eraill:

- costau cyfleoedd a gollwyd mewn termau ariannol sy'n gysylltiedig â gadael cyrsiau, a'r rhai a gafodd eu cefnogi'n ariannol a'u hyfforddi yng Nghymru ond na chawsant eu cyflogi yng Nghymru yn ddiweddarach;
- effaith ariannol gadarnhaol unrhyw gamau gweithredu wedi'u targedu i leihau cyfraddau gadael;
- effaith ariannol gadarnhaol 'symleiddio' cyflogaeth fel bod mwy o'r myfyrwyr a gyllidwyd yng Nghymru'n cael eu cyflogi yng Nghymru ac felly'n ychwanegu gwerth yng Nghymru;
- dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o effaith lleihau costau asiantaeth ar draws ystod ehangach o broffesiynau; a
- boddhad cyflogwyr gyda hyfforddiant ar gyfer recriwtiaid newydd yn dilyn hyfforddiant.

**A2** Paratoi adroddiad o leiaf yn flynyddol ar werth am arian comisiynu addysg, yn dilyn diwedd y flwyddyn academaidd. Dylai hyn alluogi'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg i gyflawni ei Gylch Gorchwyl mewn perthynas â goruchwylio a chraffu ar werth a hefyd helpu i oleuo trafodaethau ynghylch cynlluniau comisiynu yn y dyfodol. (**Paragraffau 38 i 40**)

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

- Rydym wedi adolygu trefniadau AaGIC i gynyddu i'r eithaf werth ei wariant ar gomisiynu addysg, ei brosesau a rheolaethau i sicrhau gwell gwerth am arian, ei ddulliau ar gyfer cofnodi a thracio pa a yw'n defnyddio ei adnoddau'n effeithiol, a pha un a yw'n cynnal goruchwyliaeth effeithiol.
- Fe wnaethom ystyried y trefniadau gwerth am arian trosfwaol ar gyfer comisiynu addysg ar draws y sefydliad, gyda phrofion ychwanegol penodol ar y trefniadau ymarferol mewn perthynas â chomisiynu addysg Nyrsio. Ni wnaethom asesu ansawdd y trefniadau hynny'n uniongyrchol.
- Fe wnaethom hefyd asesu'r cynnydd y mae AaGIC wedi'i wneud gyda'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022, Adolygiad o'r Trefniadau Comisiynu Blynyddol.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol:

- A yw AaGIC yn cynllunio sut y bydd yn dangos effeithiolrwydd gwerth am arian lleoedd addysg a gomisiynir?
- A yw AaGIC yn cynnal gweithgareddau i asesu a sicrhau gwerth am arian lleoedd addysg a gomisiynir?
- A yw AaGIC yn monitro effeithiolrwydd trefniadau gwerth am arian ar gyfer lleoedd addysg a gomisiynir?
- A yw AaGIC wedi ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad a gyhoeddwyd gennym yn 2022?

## Meini Prawf

# Dulliau

Fe wnaethom ni'r gwaith archwilio rhwng mis Mai a mis Awst 2025.

Fe adolygom ni'r dogfennau allweddol canlynol:

- Dadansoddiad o adenillion ar fuddsoddiad
- Fframweithiau rheoli perfformiad
- Cynlluniau Addysg a Hyfforddiant
- CTCI
- Adroddiadau Sicrwydd Ansawdd

Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:

- Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad
- Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid Addysg
- Cyfarwyddwr Addysg Nyrsys a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol
- Cadeirydd y Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg
- Cyfarwyddwr Datblygiad Digidol
- Pennaeth Cyn Cofrestru
- Dirprwy Gyfarwyddwr Comisiynu ac Ansawdd Addysg
- Rheolwr Prosiect Addysg a Gwella

Fe ofynnom ni hefyd i AaGIC gwblhau a chyflwyno hunanasesiad, a hwnnw'n nodi ei farn am y cynnydd gyda'r argymhellion a wnaed yn 2022. Cafodd yr hunanasesiad ei gwblhau a'i ddychwelyd atom ni ar 25 Mehefin 2025.

# 2 Cynnydd gydag argymhellion blaenorol

## Cynnydd gydag argymhellion blaenorol

Fe wnaethom yr argymhellion canlynol yn ein Hadolygiad o'r Trefniadau Comisiynu Blynyddol yn 2022. Rydym wedi amlygu statws yr argymhellion hyn yn seiliedig ar ein hadolygiad dilynol. Mae AaGIC wedi gwneud cynnydd da gydag argymhellion blaenorol.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 1 yn 2022**<br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau: Medi 2022**<br><br>**Gwybodaeth am y Gweithlu**<br><br>Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTCI) Byrddau Iechyd yw'r brif ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir i bennu nifer y myfyrwyr a'r lleoliadau gofynnol. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi adnabod bod ansawdd y data a'r wybodaeth o fewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu yn amrywiol.<br>Dylai AaGIC:<br>a) gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gryfhau canllawiau ynghylch cynllunio blynyddol a/neu Gynlluniau Tymor Canolig Integredig i sicrhau bod gofynion comisiynu ar gyfer y gweithlu wedi'u nodi'n glir yng nghynlluniau craidd neu ddogfennau ategol cyrff iechyd; a<br><br>b) gweithio gyda byrddau iechyd i adnabod a rhagweld tueddiadau ac anghenion tymor hwy o ran y | **Wedi'i gwblhau**<br><br>a) Mae AaGIC yn cydnabod mai eu cyfrifoldeb hwy yw casglu ffigyrau comisiynu darparwyr addysg. Mae AaGIC yn defnyddio templed i gasglu'r ffigyrau ac mae AaGIC yn adolygu hwn yn flynyddol. Roedd Offeryn Tracio Argymhellion Archwilio Hydref 2022 yn nodi bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.<br>b) Fe wnaeth AaGIC ddatblygu'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant mewn cydweithrediad gyda GIG Cymru. Mae AaGIC yn cael trafodaethau parhaus gyda |

| | |
|---|---|
| gweithlu i oleuo cynlluniau comisiynu. | Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd am gynllunio'r gweithlu yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae defnyddio data'n fwy eang wedi helpu i ddatblygu gwaith modelu seiliedig-ar-senarios ar gyfer gweithlu'r dyfodol sy'n goleuo'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant. |
| **Argymhelliad 2 yn 2022**<br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau: Ebrill 2022**<br><br>**Cofnodion cyfarfodydd busnes contractau**<br><br>Nid yw cofnodion cyfarfodydd busnes contractau yn cael eu cylchredeg yn brydlon. Caiff y cofnodion eu cylchredeg ynghyd â phapurau'r cyfarfod nesaf, gan olygu bod oedi o bedwar mis. Er mwyn gwella'r broses o weinyddu cyfarfodydd busnes contractau, dylai AaGIC anelu at ddosbarthu cofnodion drafft o fewn pythefnos i gynnal y cyfarfod. Gellir cadarnhau'n ffurfiol bod y cofnodion yn gywir yn y cyfarfod nesaf. | **Yn rhannol**<br><br>Fe wnaeth AaGIC nodi bod yr argymhelliad ynghylch cylchredeg cofnodion drafft o fewn pythefnos i'r cyfarfodydd wedi'i gwblhau yn Offeryn Tracio Argymhellion Archwilio mis Gorffennaf 2022. Fodd bynnag, nododd AaGIC yn y ffurflen hunanasesu ar gyfer yr archwiliad hwn nad yw hi wastad yn bosibl cyflawni hyn. O ganlyniad, rydym wedi nodi bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau'n rhannol. |
| **Argymhelliad 3 yn 2022**<br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau: Mehefin 2022**<br><br>**Cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella gan brifysgolion**<br><br>Lle mae AaGIC yn adnabod meysydd sy'n tanberfformio neu faterion, mae'n ofynnol i brifysgolion lunio cynllun gweithredu, y mae AaGIC yn ei fonitro. Canfuom fod y cynlluniau | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Fe wnaethom argymell y dylai AaGIC ddatblygu fformat safonedig a oedd yn gofyn i Brifysgolion nodi meini prawf gofynnol ar gyfer cynlluniau gweithredu. Fe wnaeth AaGIC nodi bod hwn wedi cael ei gwblhau yn |

gweithredu a gyflwynwyd gan y prifysgolion o ansawdd amrywiol a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn amrywiaeth o fformatau. Dylai AaGIC ddatblygu fformat safonol ar gyfer cynlluniau gweithredu sy'n gofyn i brifysgolion nodi'r canlynol fel lleiafswm:

- materion a adnabuwyd;
- camau lliniaru/gwella;
- arweinydd ar gyfer pob cam gweithredu;
- graddfeydd amser ar gyfer cwblhau;
- lle ar gyfer diweddariadau ar gynnydd.

Offeryn Tracio Argymhellion Archwilio Hydref 2022. Mae AaGIC a darparwyr addysg wedi cytuno ar fframwaith ansawdd a pherfformiad ond nid ffurf safonol ar gyfer cynlluniau gwella/gweithredu. Mae'r cynlluniau gweithredu a ddefnyddir gan ddarparwyr addysg yn cynnwys y meini prawf a nodir yn yr argymhelliad.

**Argymhelliad 4 yn 2022**
**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau: Medi 2022**

**Adroddiad perfformiad ac ansawdd blynyddol**

Ceir dau adroddiad blynyddol ar y broses gomisiynu, y naill ar berfformiad a'r llall ar ansawdd. Y rheswm dros hyn yw bod gwybodaeth am berfformiad ac ansawdd ar gael ar wahanol adegau o'r flwyddyn a bod llunio dau adroddiad yn osgoi oedi wrth adrodd. Fodd bynnag, mae llunio dau adroddiad ar wahân yn golygu y gallai AaGIC fod yn colli tueddiadau neu faterion allweddol. Dylai AaGIC adnabod ffyrdd y gall ddwyn ynghyd themâu a materion allweddol o'r adroddiadau perfformiad ac ansawdd blynyddol er mwyn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o'r broses gomisiynu ac effeithiolrwydd addysg.

**Wedi'i gwblhau**

Fe wnaethom argymell y dylai AaGIC adnabod ffyrdd y gall ddwyn ynghyd themâu a materion allweddol o adroddiadau perfformiad ac ansawdd blynyddol er mwyn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o'r broses gomisiynu ac effeithiolrwydd addysg. Fe wnaeth AaGIC nodi bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau yn Offeryn Tracio Argymhellion Archwilio Hydref 2022. Mae AaGIC a darparwyr addysg wedi cytuno ar fframwaith ansawdd a pherfformiad. Mae hwn yn dod â pherfformiad ac ansawdd comisiynu ynghyd. Mae adroddiadau ar berfformiad ac ansawdd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Tîm

| | |
|---|---|
| | Gweithredol a'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg. |
| **Argymhelliad 5 yn 2022**<br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau: Chwefror 2022**<br><br>**Adrodd wrth y Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg**<br><br>Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau rheolaidd ar ansawdd hyfforddiant a gomisiynir, ond mae fformat yr adroddiadau hyn yn anghyson ac fe'u cyflwynir fel cymysgedd o ddiweddariadau ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er mwyn cryfhau sicrwydd a galluogi aelodau'r pwyllgor i adolygu gwybodaeth cyn y cyfarfod, dylai AaGIC gyflwyno ei adroddiadau sicrwydd ansawdd mewn fformat safonedig, ysgrifenedig ym mhob cyfarfod. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Yn yr adolygiad blaenorol canfuom anghysondeb yn y drefn ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg, gyda chymysgedd o ddiweddariadau ar lafar ac yn ysgrifenedig. Fe argymhellom ni y dylai AaGIC adrodd yn ysgrifenedig ar y materion hyn i gryfhau sicrwydd a galluogi aelodau'r pwyllgor i adolygu gwybodaeth cyn y cyfarfod. Fe wnaeth AaGIC nodi bod hwn wedi cael ei gwblhau yn Offeryn Tracio Argymhellion Archwilio Gorffennaf 2022. Mae Adroddiadau Sicrwydd Ansawdd i'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg yn rheolaidd ar ffurf ysgrifenedig. Fel arall, gallant gael eu cyflwyno fel cyflwyniadau digidol sy'n rhan o'r agenda neu gellir eu hanfon at y rhai a fydd yn bresennol. |

# 3 Ffurflen Ymateb y Rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Datblygu a chymhwyso fframwaith cymesur a seiliedig-ar-dystiolaeth o fesurau i asesu gwerth am arian addysg a hyfforddiant a gomisiynir, gan ddefnyddio dangosyddion ariannol ac anariannol a pherfformiad cymharol. Dylai hwn ganolbwyntio ar ddeilliannau sy'n berthnasol, yn fesuradwy ac o fewn dylanwad y sefydliad, gan gynnwys meincnodi yn erbyn gwledydd eraill y DU .<br>Gallai'r rhain gynnwys, ymhlith eraill:<br>a) costau cyfleoedd a gollwyd mewn termau ariannol sy'n gysylltiedig â gadael cyrsiau, a'r rhai a gafodd eu cefnogi'n ariannol a'u hyfforddi yng Nghymru ond na chawsant eu | Byddwn yn adolygu ac yn cryfhau'r fframwaith gwerth am arian cyfredol ar gyfer addysg a hyfforddiant a gomisiynir trwy adnabod set ac iddi ffocws pendant o fesurau priodol sy'n ddichonadwy, yn gymesur ac yn gadarn yn ddadansoddol.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys defnydd estynedig o feincnodi cymharol (er enghraifft, cyfraddau gadael, cyfraddau cwblhau a deilliannau mynediad i'r gweithlu yn berthynol i Loegr a'r Alban), parhau i defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol cytundebol fel prif ddangosyddion gwerth, a dadansoddiad wedi'i dargedu lle mae perfformiad yn wahanol i'r disgwyliadau. | Graddfa amser – dylai hyn fod wedi'i angori i'r amserlen ar gyfer rhaglenni a gomisiynir e.e. byddwn yn ystyried yr ystod o fesurau cyn, ac i oleuo, yr adroddiad cyntaf y byddwn yn ei lunio erbyn mis Tachwedd 2026 i adlewyrchu perfformiad yn sesiwn academaidd 2025-26. | Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid Addysg |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | cyflogi yng Nghymru yn ddiweddarach;<br>b) effaith ariannol gadarnhaol unrhyw gamau gweithredu wedi'u targedu i leihau cyfraddau gadael;<br>c) effaith ariannol gadarnhaol 'symleiddio' cyflogaeth fel bod mwy o'r myfyrwyr a gyllidwyd yng Nghymru'n cael eu cyflogi yng Nghymru ac felly'n ychwanegu gwerth yng Nghymru;<br>d) dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o effaith lleihau costau asiantaeth ar draws ystod ehangach o broffesiynau; ac<br>e) boddhad cyflogwyr gyda hyfforddiant ar gyfer recriwtiaid newydd yn dilyn hyfforddiant. | Byddwn hefyd yn asesu bylchau a dibyniaethau yn y data (gan gynnwys, er enghraifft, llifoedd gweithlu trawsffiniol a gwariant ar staff asiantaeth) ac yn nodi, lle y bo'n briodol, sut y gellid ymdrin â'r rhain dros amser neu pam na ellir dibynnu arnynt ar hyn o bryd ar gyfer asesiad rheolaidd o werth am arian. Byddwn yn datblygu ein dull bob yn dipyn. | | |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A2 | Paratoi adroddiad o leiaf yn flynyddol ar werth am arian comisiynu addysg, yn dilyn diwedd y flwyddyn academaidd. Dylai hyn alluogi'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg i gyflawni ei Gylch Gorchwyl mewn perthynas â goruchwylio a chraffu ar werth a hefyd helpu i oleuo trafodaethau ynghylch cynlluniau comisiynu yn y dyfodol. | A2 felly yw y byddwn yn llunio adroddiad ar ddiwedd pob cylch academaidd e.e. erbyn mis Tachwedd i adlewyrchu deilliannau yn y sesiwn academaidd flaenorol. | A2 felly yw y byddwn yn llunio adroddiad ar ddiwedd pob cylch academaidd e.e. erbyn mis Tachwedd i adlewyrchu deilliannau yn y sesiwn academaidd flaenorol | Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid Addysg |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.